| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc / Karen Evans – Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karen Evans – Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant |
| **Teitl:** | Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif – Cynigion Band B |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth er mwyn cyflwyno cynigion Band B i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfynu a ddylid cyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer buddsoddi yn Ysgolion yr 21ain ganrif i Lywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) yn rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae ysgolion Sir Ddinbych wedi elwa dros y 7 mlynedd ddiwethaf o fuddsoddiadau sylweddol yn yr ystâd ysgolion drwy Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg, sydd wedi'i darparu drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd pob Awdurdod Lleol a Sefydliad Addysg Bellach i gyflwyno eu rhaglenni arfaethedig ar gyfer Buddsoddi Cyfalaf yn y dyfodol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru, dros y misoedd nesaf, i bennu'r rhaglen gyffredinol ar gyfer Cymru. Disgwylir y bydd hon werth tua £1.7 biliwn pe bai'r symiau mwyaf o gyllid i'w cael o bob ffynhonnell.

4.3 Cyn y Nadolig, fe gyflwynodd y Cyngor ei gynigion amlinellol uchelgeisiol ar gyfer Band B yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg i Lywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ym mis Mai 2017 mai 50:50 fydd y gyfradd ymyrraeth ar gyfer prosiectau cyfalaf traddodiadol a 75% gan Lywodraeth Cymru / 25% gan Awdurdod Lleol ar gyfer prosiectau a fydd yn cael eu hariannu

drwy'r "Model Buddsoddi Cydfuddiannol" gwahanol. Bydd y model hwn yn golygu bod costau cynnal a chadw a rheoli'r ysgol dros gyfnod o 25 mlynedd wedi'u cynnwys yng nghyfanswm costau'r prosiectau. Bydd unrhyw gynlluniau sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cael eu hariannu ar gyfradd ymyrraeth o 85% gan Lywodraeth Cymru a 15% gan y corff gwirfoddol a gynorthwyir.

4.4 Mae'r cynigion gan Sir Ddinbych wedi'u drafftio ar sail yr angen am barhau'r thema o gynigion yn codi o Adolygiadau Ardal. Mae Atodiad 1 (heb ei atodi) yn nodi canlyniadau'r adolygiadau hyd yma ac mae'r ardaloedd adolygiadau blaenoriaeth nesaf wedi'u nodi ar gyfer ardaloedd Dinbych a'r Rhyl, fel yr amlinellir isod:-

| | Prosiect | CSDd | LlC | GaG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Dinbych – Adolygiad o Ddarpariaeth, yn cynnwys YPB** | **£10.9m** | **£23.6m** | **£2.2m** | **£36.7m** |
| 2 | **Darpariaeth Gynradd y Rhyl** | **£5.15m** | **£5.15m** | | **£10.3m** |
| 3 | **Canolfan i ddarparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion** | **£3.95m** | **£3.95m** | | **£7.9m** |
| 4 | **Adolygiad o Ddarpariaeth Llangollen** | **£11.9m** | **£11.9m** | | **£23.8m** |
| 5 | **Estyniad i Ysgol y Faenol, Bodelwyddan** | **£900k** | **£900k** | | **£1.8m** |

4.5 Yn dilyn cadarnhau'r gyfradd ymyrraeth arfaethedig, mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi'i drafftio i Lywodraeth Cymru ei hystyried (gweler Atodiad 2). Ar y cam hwn, mae'r Cyngor yn paratoi ei Flaenoriaethau Corfforaethol ac yn cadarnhau unrhyw gyllid y gellir cael hyd iddo a allai alluogi i rai neu bob un o'r blaenoriaethau diwygiedig gael eu cyflawni. Os na fydd buddsoddi mewn ysgolion yn cael ei nodi'n flaenoriaeth, bydd angen lleihau maint y rhaglen yn sylweddol. Mae cyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol yn cynnwys y cafeatau hyn yn adran Achos Ariannol y ddogfen.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn paratoi Blaenoriaethau Corfforaethol diwygiedig ac mae disgwyl i'r Cyngor gadarnhau'r rhain fis Hydref. Byddai disgwyl i'r buddsoddi parhaus mewn Addysg gyfrannu at y flaenoriaeth ddrafft o sicrhau bod Sir Ddinbych yn lle y bydd pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Byddai'r cyflwyniad cyfan ar gyfer Band B yn costio £32 miliwn i Sir Ddinbych, fel y nodwyd ym mharagraff 4.4. Daeth y cyllid ar gyfer cynigion Band A o gyfuniad o arbedion drwy broses trefniadaeth ysgolion ac, yn fwy sylweddol, o arbedion corfforaethol a ail-fuddsoddwyd yn y Blaenoriaethau Corfforaethol.

Pe bai’r cynigion yn cael eu gweithredu, byddai datblygiad y Rhaglen yn parhau i greu gwaith i dimau eraill yn y Cyngor, yn enwedig Dylunio, Adeiladu a Chynnal a Chadw. Mae costau’r timau hyn wedi’u cynnwys yn y costau amlinellol cyfan.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

**Mae’r Asesiad o Effaith ar Les wedi arwain at y casgliadau canlynol:-**

Dylai datblygu rhaglen i fuddsoddi yn Ysgolion yr 21ain ganrif gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych. Bydd y cyfnod adeiladu’n golygu y bydd mwy’n cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau lleol a bod gwell cyfleoedd am waith. Gall dewis safle gael effaith negyddol ar Sir Ddinbych wydn a bydd angen ystyried hyn yn ofalus. Dylai darparu adeiladau modern gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych iachach a mwy cyfartal gan ddarparu cyfle am gymuned fwy cydlynol. Bydd yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei phennu gan leoliad y buddsoddiad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Lluniwyd y rhestr uchelgeisiol gychwynnol ar ôl cyfarfod anffurfiol gyda Chynghorwyr fis Rhagfyr 2016 cyn cyflwyno’r rhestr i Lywodraeth Cymru.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r blaenoriaethau wedi’u hawgrymu ar gyfer Band B ar sail angen. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid wedi’i gytuno i ategu cyfraniad y Cyngor ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyflwyniad i Lywodraeth Cymru. Mae’r gyfradd ymyrraeth wedi parhau ar 50:50 ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau ym Mand B, sy’n cyfyngu ar y cwmpas posib' o safbwynt y Cyngor. Wrth i’r Cyngor newydd ddatblygu ei flaenoriaethau, gall benderfynu neilltuo adnoddau i gefnogi Ysgolion yr 21ain ganrif yn rhan o’r broses honno, er na fyddai’r adnoddau sydd wedi’u nodi hyd yma i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol yn ddigon i ariannu’r holl brosiect sydd wedi'i nodi. Fodd bynnag, bydd angen i aelodau wneud penderfyniadau wrth bennu’r gyllideb ac fe allent bleidleisio i neilltuo mwy o gyllid i gefnogi Ysgolion yr 21ain ganrif, ond fe fyddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Hyd yma, nid yw cynigion ar gyfer Band B yn cynnwys ymhoniadau ynglŷn â chau ysgolion yn y dyfodol ac ailgylchu cyllid i ariannu buddsoddiadau mewn ysgolion newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dewis ychwanegol i ariannu ysgolion newydd o’r enw’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae gwerth ac addasrwydd y model hwn yn dal i gael eu hasesu.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae’r Rhaglen Moderneiddio Addysg bresennol yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli ac uwchgyfeirio risgiau ar lefel y Rhaglen a’r Prosiect. Pe bai’r rhaglen yn cael ei gyrru yn ei blaen, byddai'r gweithdrefnau hyn yn parhau. Byddai’r risgiau sy’n gysylltiedig â lleihau’r rhaglen yn effeithio’n bennaf ar ddwy ardal. Drwy dderbyn y risg sydd mewn perthynas â chynnal a chadw adeiladau gwael neu rai sy'n rhy hen,

mae disgwyl i gostau cynnal a chadw gynyddu dros amser. Gallai hyn effeithio ar gyfleoedd dysgu disgyblion sydd mewn adeiladau o'r fath.

## 11. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 14 Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac uwchradd.